O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 3031 (Cy. 308)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Gwelliant Glandyfi, Ceredigion) (Gwaharddiad a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2012

*Gwnaed* *3 Rhagfyr 2012*

*Yn dod i rym* *6 Rhagfyr 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun - Bangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn:

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Rhagfyr 2012 a'i enw yw Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Gwelliant Glandyfi, Ceredigion) (Gwaharddiad a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 201-.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 00.01 o'r gloch ar 6 Rhagfyr 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darn o’r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw’r darn o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.**Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr, ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr, ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**6**. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y darn o’r gefnffordd abennir yn yr Atodlen.

**Cymhwyso**

**7**. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a’r cyfyniadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8**. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 3 Rhagfyr 2012

***RICHARD MORGAN***
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 303 o fetrau i'r de o ganolbwynt y bont sy'n cludo'r A487 dros Afon Melindwr hyd at bwynt 58 o fetrau i'r gogledd o'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain i Gaerhedyn.